

## JONES, JOHN (1790 - 1855), argraffydd a chyhoeddwr

**Enw:** John Jones  
**Dyddiad geni:** 1790  
**Dyddiad marw:** 1855  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** argraffydd a chyhoeddwr  
**Maes gweithgaredd:** Argraffu a Chyhoeddi  
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

- cyhoeddwr cyntaf *Yr Amserau*, y papur newydd Cymraeg cyntaf i'w osod ar sylfaen gadarn. Ganwyd yn Llansanffraid Glan Conwy, sir Ddinbych, 29 Medi 1790. Pan yn 12 neu 13 oed aeth i Lerpwl fel prentis gyda'r argraffwyr, Nevetts, Castle Street. Wedi iddo orffen ei brentisiaeth, dechreuodd argraffu ei hun yn yr un stryd. Yno cyhoeddodd nifer o lyfrau Cymraeg, yn eu plith gyfrol fechan (1829) er cof am [Thomas Hughes](#) (1758 - 1828), a Thomas Edwards, gweinidogion gyda'r Methodistiaid Calфинаidd yn Lerpwl. Cyhoeddodd hefyd fisolyn, *Y Pregethwr* 1835-45?). Yn 1821 cydnabuwyd ef ei hun fel pregethwr lleyg gyda'r Methodistiaid Calфинаidd, ac yr oedd, fel blaenor, yn un o'r rhai a arwyddodd weithred gyfansoddiadol yr enwad (1826). Yn Nhachwedd 1830, fodd bynnag, diarddelwyd ef am dderbyn llwgr dâl ynglŷn ag etholiad seneddol y flwyddyn honno. Yr oedd [John Elias](#) yn cydfynd â'r disgyblu hyn, er fod Jones yn gyfaill iddo ac wedi gwasanaethu fel gwas priodas yn ei ail briodas ym mis Chwefror Ail dderbyniwyd Jones fel aelod yn 1833, ond gwrthodwyd ei ail ethol yn flaenor yn 1836. Ymddengys ei fod yn rannod i gydweithio ag ef (dywedir hyn ar sail tystiolaeth y cydnabyddir ei bod yn rhagfarnlyd). Yr oedd ei syniadau diwinyddol a gwleidyddol ychydig yn rhy radicalaidd i fod yn dderbyniol gan ei gyd-aelodau tra cheidwadol. Yn 1838 diarddelwyd ef drachefn. Yna ymunodd ag Annibynwyr Cymraeg Lerpwl, a bu'n weithgar iawn gyda hwy. Yn 1844 daeth yn ôl i gorlan y Methodistiaid Calфинаidd, a dyfod yn rannol blaenllaw unwaith eto, gan ail ddechrau pregethu. Tua 1850 aeth i fyw i Brookhouse, Dinbych, gan adael y fusnes (yn awr yn 18 Tithebarn Street) yn nwylo'i deulu. Yn 1850 ymddangosodd *Cofiant y Parchedig John Elias o Fôn*, a ysgrifennwyd gan Jones a'i gyfaill, y [Parch. John Roberts](#), Lerpwl (1808 - 1880), yn fwy adnabyddus wrth ei ffug-enw, Minimus. Bu Jones farw'n sydyn, 8 Ionawr 1855, yn y trêrn ar y ffordd adref (i Melville Place) ar ôl taith bregethu.

Ymddangosodd *Yr Amserau* gyntaf pan oedd Jones yn aelod gyda'r Annibynwyr, ac yn un o braidd [William Rees](#) ('Gwilym Hiraethog'). Cyhoeddwyd y rhifyn cyntaf, 23 Awst 1843. Yr oedd Jones, nid yn unig yn argraffu, ond hefyd yn gyfrifol am y treuliau, yn gwasanaethu fel is-olygydd, ac yn chwilio am newyddion lleol a hysbysiadau, etc. [Rees](#) oedd yn gyfrifol am y prif erthyglau, ac am newyddion seneddol a thramor. Ar ôl brwydr galed, dechreuodd y papur fod yn llwyddiant. Ond, yn 1848, gwerthodd John Jones ei hawliau i [John Lloyd](#) o'r Wyddgrug - gweler yr erthygl ar [Evan a John Lloyd](#). Am hanes diweddarach *Yr Amserau*, gweler hefyd tan [Gwilym Hiraethog](#) a [Thomas Gee](#).

### Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

### Ffynonellau

J. Hughes Morris, *Hanes Methodistiaeth Liverpool* (Lerpwl 1929-1932), i, 70, 102-3, 110, 112-5, 130, 133-4

T. M. Jones, *Llenyddiaeth fy Ngwlad* (1893), 15-18, 93

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20733500](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1970

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

